# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

COFNODION Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrth 12/01/2021 ar Zoom am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Catrin Roberts (Cad) | Arfon Hughes | Gruffydd Williams | Cai Rees Jones | Carys Roberts |
| Alaw Llewelyn Roberts | Rhys Llewelyn | Rhys Tudur | Mared Llywelyn Williams | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Guto Williams, Lleucu Jones, Sharon Williams, Janice Evans, Gwynfor Jones, Caren Jones, Pat Humphreys (Clerc)

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol**
   Dim

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Zoom 08/12/2020
   Penderfyniad: derbyn yn gywir
   Cynnig: Rhys Llewelyn    Eilio: Arfon Hughes

4. **Unrhyw Fater Brys**
   **Prosiect Meinciau Cyfeillgar –** Cai Rees Jones
   Mae Adran Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd wedi cael arian yn ddiweddar i wario ar adnewyddu meinciau sydd ddim ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd mewn canol trefi megis Nefyn. Penderfynwyd bod rhai o aelodau CTN yn mynd i edrych ar y meinciau sydd wrth y Gof golofn yn Nefyn i weld os yw rhain yn addas ar gyfer y prosiect.

5. **Cynnig Cynllun Gweithredu Tai –** Rhys Tudur
   Cynnig yw hwn sydd yn galw ar Cyngor Gwynedd i ddefnyddio rhan helaeth o'r arian sydd ganddynt ar gyfer 'Cynllun Gweithredu Tai' sef 77 miliwn, ar gyfer cymunedau lle mae nifer uchel o ail gartrefi, gan ysgrifennu llythyr iddynt yn dwyn pwys arnynt i glustnodi rhan helaeth o'r arian ar gyfer cymunedau sydd wir ei angen fel ein cymunedau ni yn hytrach nac mewn trefi megis Caernarfon a Bangor.
   Penderfyniad: pasiwyd y cynnig ac i Rhys Tudur ddrafftio llythyr i Cyngor Gwynedd.
   Cynnig: Rhys Tudur        Eilio: Gruffydd Williams

6. **Cynnig ymchwil manwl i fonitro effaith ail gartrefi ar gymunedau–** Rhys Tudur
   Cynnig yw hwn yn galw am grantiau i adrannau ym Mhrifysgol Bangor i ymchwilio mewn i effaith ail gartrefi ar gymunedau a'r iaith Gymraeg. Nid oes dim un corff yn monitro y gyfradd mae ail gratrefi yn cael eu prynnu, y gyfradd mae pobol leol yn cael eu amddifadu o gartref sydd ar y farchnad, yr effaith sydd ar yr iaith Gymraeg na beth fydd yr effaith yn y dyfodol.
   Penderfyniad: cynnigiwyd fod Rhys Tudur, Rhys Llewelyn a Gruffydd Williams yn dod at eu gilydd i drafod y ffordd orau ymlaen ac adrodd nol i bwyllgor Chwefror.
   Cynnig: Arfon Hughes     Eilio: Rhys Tudur

7. **Holiadur Premiwm Treth Cyngor –** Rhys Tudur
Mae na fwriad i godi treth cyngor ar ail gartrefi 100% ac ar dai gweigion ac yn sgil hyn mae Cyngor Gwynedd wedi gwneud holiadur i bobol ei lenwi fel rhan o ymgymghoriad gyda'r cyhoedd. Mewn holiaduron fel hyn y bobol sy'n debygol o'u llenwi yw'r bobol sy'n debygol o gael eu effeithio yn ariannol gan y cynnydd yn y premiwm sef perchnogion ail gartrefi felly mae Rhys Tudur yn annog cyn gymaint o bobol ag sydd bosibl i'w lenwi er mwyn i ni allu defnyddio'r pwerau sydd gan y sir yn llawn a mynd yn ol at y Llywodraeth hefo galwad lawer mwy pwerus yn gofyn iddynt weithredu ar frys ar yr argyfwng ail gartrefi. Mae Rhys Tudur yn cynnig ein bod ni fel CTN yn llythyru Cyngor Gwynedd ynghylch yr holiadur gan ddatgan pryder eu bod yn derbyn sylwadau perchnogion ail gartrefi sydd hefo diddordeb ariannol yn y mater.
Penderfyniad: Rhys Tudur a Gruffydd Williams i lunio llythyr i'r adran gyfreithiol yn gofyn iddynt ateb pwyntiau arbennig hefo sylwadau penodol sydd gan CTN ynglyn â'r holiadur.
Cynnig: Arfon Hughes  Eilio: Carys Roberts

8. **Diweddariad ar gyfarfod zoom Cylch Yr Iaith –** Catrin Roberts
Bu i rhai aelodau CTN gael cyfarfod zoom gyda aelodau Cylch yr Iaith yr wythnos diwethaf er mwyn iddynt eu rhoi ar ben ffordd i lunio llythyr i'w yrru ymlaen i gynghorau cymuned a thref Gwynedd i ddechrau, gyda templed o lythyr iddynt ei yrru ymlaen i Julie James ynghlyn â'r argyfwng ail gartrefi. Gofynwyd i weddill aelodau CTN os ydynt yn hapus gyda'r llythyr ac yn cytuno iddo gael ei anfon i holl cynghorau cymuned a thref yng Ngwynedd.
Penderfyniad: y clerc i yrru e-bost i bob cyngor cymuned a thref yng Ngwynedd gyda templed llythyr iddynt ei yrru ymlaen i Julie James.
Cynnig: Alaw Llewelyn Roberts  Eilio: Rhys Llewelyn

9. **Llythyr i'r Cynghorwyr –** Gruffydd Williams
Cynnig yw hwn i lunio llythyr yn gofyn ar ran CTN am gefnogaeth i rybudd o gynnig a roddwyd gerbron Cyngor Gwynedd i newid y Ddeddf Gynllunio ac hefyd bod Cyngor Gwynedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i newid y Ddeddf Gynllunio fel ei fod yn orfodol i gael hawl cynllunio i drosi ty annedd yn dy hâf /uned gwyliau ac yn addasu'r fframwaith bolisi i ganiatau gosod trothwyon o ran uchafswn niferoedd o dai haf mewn unrhyw ardal. Bwriedir anelu y llythyr at aelodau Cynghorau yng Nghymru er mwyn iddynt roi y rhybudd o gynnig gerbron eu Cyngor.
Penderfyniad: Gruffydd Williams a Rhys Tudur i lunio llythyr a penderfynnu at bwy aelodau i'w yrru.
Cynnig: Rhys Tudur  Eilio: Cai Rees Jones

10. **Rhodfa'r Môr – Amcanbrisiau i drwshio'r lôn –** Gruffydd Williams
Mae dyfynbris wedi ei dderbyn o £2,268.00 gan G. Williams.
Penderfyniad: y clerc i anfon llythyr i G. Williams i dderbyn y dyfynbris a cario mlaen hefo'r gwaith a'r arian yn dod o gyfrif Big.
Cynnig: Arfon Hughes  Eilio: Catrin Roberts

11. **Llwybrau – Rhodfa'r Mor –** Gruffydd Williams
Mae Cyngor Gwynedd wedi cau llwybr Tyn Coed oherwydd cyflwr y llwybr, mae'r gwartheg yn stompio ar linell y llwybr ac o'r herwydd mae mwd difrifol yna. Mae Cyngor Gwynedd yn monitro y sefyllfa a phan fydd hi'n saff fe gaiff y llwybr ei ail agor.
Nid oes diweddariad ar Lwybr Lleiniau.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts • 07880 737298

**12. Meinciau –** Gruffydd Williams
Mae dipyn o olwg ar y meinciau a mae angen cymeryd stoc o'r meinciau sydd dan ofal CTN cyn iddynt bydru, felly mae angen i rhywun edrych arnynt a gwneud y gwaith angenrheidiol a gofalu amdanynt yn iawn.
Penderfyniad: ei roi ar yr agenda mis nesaf i drefnu fod aelod o bob pentref yn mynd o amgylch eu pentref i edrych ar y meinciau sydd yno.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gruffydd Williams

**13. Cyllideb –** Arfon Hughes & Clerc
Cafodd bawb gopi terfynnol o'r gyllideb gyda'r agenda.
Penderfyniad: Derbyn y gyllideb ac awgrymu praesept o £77,250.00
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gruffydd Williams

**14. Mynwent Morfa Nefyn –** Clerc
Cafwyd diweddariad gan y Cadeirydd ar ran y clerc. Mae'r aelod lleol wedi anfon e-bost i Aneurin Môn Parry yn gofyn am sylw brys i'r amod cynllunio ar gais cynllunio stad Trem y Garn i ddarparu llwybr aml bwrpas wrth ymyl y fynwent ond nid yw wedi derbyn ymateb hyd yn hyn.
Penderfyniad: gyrru llythyr i Grwp Cynefin yn datgan ei fod yn gywilyddus eu bod wedi esgeuluso eu dyletswyddau cyhyd drwy beidio darparu llwybr aml bwrpas i drigolion y stad fedru mynd a'u plant i'r ysgol mewn ffordd ddiogel a'i roi ar agenda mis nesaf i weld os bydd ateb i'n llythyr.
Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Gruffydd Williams

**15. Gweplyfr CTN**
Cafwyd trafodaeth ar y mater a gan nad oedd y clerc yn bresennol yn y cyfarfod a hi fysa yn gyfrifol am roi y pyst ar gweplyfr yna penderfynwyd ei roi ar agenda mis nesaf iddi hi gael roi ei barn ar y mater.

**16. Gohebiaeth a Dderbyniwyd**
- **Cyngor Cymuned Llanengan (copi wedi ei anfon I bawb ar y 14/12/2020) –** Tlodi Digidol
  Penderfyniad: y clerc i gysylltu gyda Cyngor Cymuned Llanengan i gael mwy o wybodaeth.
- **Radio Ysbyty Gwynedd (wedi ei atodi) –** Cais am gyfraniad ariannol
  Penderfyniad: peidio rhoi cyfraniad rwan ac edrych ar y sefyllfa mis Mawrth.
- **Cylch Meithrin Edern (wedi ei atodi) –** Cais am gyfraniad ariannol
  Penderfyniad: y clerc i gysylltu yn gofyn faint o arian y mae nhw eu hangen.

**17. Ceisiadau Cynllunio**
- **C20/1042/42/LL –** Fferyllfa Llyn, Stryd Fawr, Nefyn – Gosod peiriant casglu presgriptiwn **- ymateb wedi cael ei anfon i'r Adran Gynllunio gan fod y 21 diwrnod wedi dod i ben** - Dim Gwrthwynebiad
- **C20/1070/42/DT** – Brig yr Ewyn, Rhodfa'r Mor, Nefyn – Estyniad llawr cyntaf ochr uwchben modurdy presennol – Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

**Ceisiadau Diweddarach**

**18. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc - £935.24
- Ashley Hughes – Offer swyddfa yn cynnwys Shilffoedd a Printer newydd - £424.54
- John Gwynfor Jones – Angladd Hannah Jones - £400.00
- Taliad y Cadeirydd – pumed taliad - £300.00
- N Power – Trydan Llyfrgell Nefyn Rhagfyr - £132.64
- H M Revenue & Customs – PAYE - £61.74

Penderfyniad: Talu pob anfoneb

Cynnig: Carys Roberts Eilio: Rhys Tudur

**Anfonebau sydd wedi cael eu talu:**

- H M Revenue & Customs – PAYE - £61.94
- N.Power – Trydan Llyfrgell Nefyn Hydref - £101.77
- N.Power – Trydan Llyfrgell Nefyn Tachwedd - £126.97

**19. Taliadau wedi eu derbyn:**

- G. W. Parry – Angladd Iorwerth Thomas Morgan (25/10/2019) - £655.00
- Ifan Hughes – Angladd Idris Williams & Gwilym Meurig Jones - £1630.00
- Osian Williams – Rent Cae'r Fynwent - £150.00

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts • 07880 737298